

11 Ebrill 2018

Mae avelumab yn driniaeth bosibl ar gyfer carsinoma celloedd Merkel metastatig (eilaid) mewn oedolion.

- I bobl sydd wedi cael cemotherapi, mae avelumab ar gael ar y GIG.
- I bobl nad ydynt wedi cael cemotherapi, mae avelumab ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser. Mae mwy o dystiolaeth ar y cyffur yn cael ei chasglu hyd at fis Mai 2019. Yna, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio yn y GIG ar gyfer pobl nad ydynt wedi cael cemotherapi. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

### **A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

### **Cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### **Gwybodaeth a chymorth**

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Sefydliad Cleifion NET](#), 0845 454 6476
- [Melanoma UK](#), 0808 171 2455
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2925-2